

Yr Amlen

Dwi erioed wedi hoffi darllen.

Un o'm esgusodion yn yr ysgol oedd nad oeddwn yn hoffi geiriau mawr.

Geiriau fel "pendramwnwgl", "annibynnol" ac "esgeulustod".

Jesd llythrennau yn cael eu taflu gyda'i gilydd, a rhyw athrylith yn dweud fod ganddynt ystyr.

Ddoe, mi ddos ar draws dau air arall nad oeddwn yn hoffi.

Nid yn unig am eu bod yn rhai eitha hir a chymhleth i'w deall, ond hefyd oherwydd fod ganddynt ystyr ofnadwy.

Ystyr y byddai'n newid fy mywyd am byth.

Petawn i'n gallu mynd nôl mewn amser, mi fuaswn yn newid popeth, fel nad oedd rhaid i mi sefyll yno, â dagrau yn llifo i lawr fy mochau, yn syllu ar y geiriau, yn dymuno nad oedd dim o hyn wedi digwydd, ac na fyddwn byth wedi gorfod gwybod beth yr oeddynt yn ei feddwl.

'Lymffoma Terfynol'.

Bring bring! Bring bring!

Does neb fel arfer yn fy ngalw. Tecstio ydi popeth y dyddie 'ma. Bron i mi ddisgyn o'm set wrth glywed fy ffôn yn canu, yn cyhoeddi i'r byd i gyd (neu efallai i mi a'm fflat wag, a'r bocsys gorlawn yn llawn o'm pethau a'm ffolderi ysgol dros y lle i gyd) fod rhywun yn gofyn amdanaf.

"Helo..?" gofynnais yn dawel.

"Sara? Ai ti sy'n siarad?" dywedodd llais bach tawel a gwan. Nid oeddwn yn ei hadnabod i ddechrau.

"Ie...Sara ydw i. Pwy sy'n gofyn?"

"Mam."

Mam? Dwi heb glywed gan Mam mewn misoedd – ddim ers i mi adael i fynd i'r brifysgol. meddyliais.

"Ydi popeth yn iawn?"

"Ydi, mae popeth yn-" oedodd am foment. "- yn iawn. Yn wych, os fentra i ddweud!"

"Falch o glywed. Pam ti'n galw, os gai ofyn? Mae o'n lyfli clywed gennyt. Ydi Dad yn o'lew?"

"Ydi siwr. Dan ni 'di bod yn eitha prysur dros y misoedd diwethaf. Sori am beidio a galw," dywedodd ag ansicrwydd yn ei llais.

"Paid a phoeni."

"Sudro o'n i os yr hoffet ddod adre dros y gwyliau Pasg. Mae Joni'n dod o Gaerdydd, ac mi fyddai'n hynod o neis i gael yr holl deulu draw."

"Joni? Dwi heb ei weld mewn misoedd!"

"Wel, mae o'n dod yma weithiau i...i helpu Dad a'r garddio. Mae'n edrych ymlaen i dy weld!"

"Dyna neis. Wrth gwrs - sw'n i wrth fy modd yn dod i'ch gweld."

"Perffaith! Wela i di'n fuan Sara. Caru ti!"

"Caru ti 'fyd Mam. Tara!" meddwn, a chwythu sws trwy'r ffôn.

Wedi i Mam fynd, teimlais ias oer i lawr fy ngefn. Eisteddais yn llonydd, yn meddwl am ein sgwrs. Pam na allwn i adnabod ei llais? Oherwydd fy mod wedi treulio cymaint o amser yn y brifysgol? Na – roedd ei llais hi mor wahanol. Roedd fel arfer mor felfedaidd, a mor gysurus – ond heddiw, roedd o'n wan, a thawel.

Dechreuais boeni amdani. Doedd gen i ddim syniad beth i'w ddisgwyl pan y gwelwn i hi, ond ni allai unrhywbeth fo wedi gallu fy mharatoi.

Sefais y tu allan i'r hen ffermdy. Edrychais ar yr ardd; roedd y rhosod coch yn gwenu arnaf yn falch, eu petalau mor goch ag erioed.

Cnociais ar y drws. Roedd hi'n dawel fel y bedd.

Daeth y golau ymlaen yn y cyntedd, a chyn pen dim mi ymddangosodd pen Dad y tu ôl i'r drws.

"Helo Sara! Sut wyt ti ers meitin?" meddai, a rhoi cwttch mawr i mi. Tyrd i mewn – mi rodda'i dy fagiau lawr."

"Diolch Dad – mae o mor neis i'ch gweld."

"Mae cinio bron yn barod – mae Mam a Joni yn awyddus i dy weld."

Cerddais i mewn i'r lolfaf. "Sut wyt ti?" gofynnodd Joni, â gwen fawr. Eisteddais wrth ei ochr, a dechreuon sgwrsio. Disgleiriai ei lygaid yn garedig. Roedd o'n sicr wedi newid ers ymadael i Gaerdydd.

"Haia Sara."

Roedd y llais mor dawel na chlywais i mohono i ddechrau. Pwtiodd Joni fy mraich, a nodio tuag at y soffaf.

Craffais fy llygaid. Am eiliad, doeddwn i ddim yn siwr beth yr oeddwn yn edrych arno; rhyw siap bach yn eistedd ar y soffaf, heb symud dim. Edrychais yn bell i mewn i'r dyfnder yn ei llygaid.

"M...Mam?" Teimlais fy stumog yn corddi. Roedd hi mor welw â'r lleuad ar noson oer. Gwisgai wn nos binc, ac roedd ganddi flanced neu ddwy amdani. Am ei phen, roedd sgarff las. Nid oedd golwg o'i gwallt hir brown.

Eisteddai'n eiddgar am ymateb, ond roeddwn i wedi synnu.

"Ym... Sara – tyrd i'r gegin." dywedodd Joni. Ni gymerais unrhyw sylw ohono, ond roedd rhaid i mi, pan fachodd yn fy mraich a'm llusgo i'r gegin.

Caeodd y drws ar ei ôl, ac eistedd wrth y bwrdd. Ochneidiodd.

"Joni, be sy'n mynd mlaen?" ebychais. Roedd fy nghalon yn curo yn fy nghlust, ac roedd gen i ddolur yn fy llwnc.

"Oi! Cadwa dy lais lawr, wnei di?" meddai'n dawel.

"Dim ots am hynny. Welest ti Mam?"

"Do..."

"Welest ti ei chroen hi? Roedd o mor welw, a'i chorff mor fach, a'i bochau mor...mor...". Llifodd y dagrau i lawr fy mochau. Syllodd Joni arnaf, a doedd dim angen i mi edrych arno i wybod fod euogrwydd yn berwi trwy ei waed.

"Sara," meddai, gan sefyll a rhoi ei fraich ar f'ysgwydd. "Mae popeth yn iawn, w'sti."

"Na, dyw e ddim! Dydi Mam ddim 'run fath."

"Gwrandda. M'ond y ffliw ydi o. Dwi 'di bod yn ymweld â Mam tra roedd hi'n sal," esboniodd.

"Pam na ddwedaist ti rywbeth? Mae hi'n edrych mor wan." Cymerais anadl. "Ti'n dweud celwydd," meddwn o dan f'anadl.

"Nac ydw! Doedd hi ddim eisiau ymwelwyr pan 'roedd hi'n sâl. Plis Sara-"
Cymerais funud neu ddwy i feddwl. "Iawn."

"Tyrd i gael sgwrs â hi. Mae hi mor falch dy fod ti yma."

Aethom i'r lolfâ, lle roedd Dad a Mam yn eistedd, yn gwyllo'r teledu.
Eisteddais wrth ei hochor.

"Wyt ti'n iawn, Sara?" gofynnodd, mewn llais bach gwan.

Llyncais fy mhoer. "Ydw, diolch Mam. A tithe?"

"Ydw, cariad. Sut mae'r brifysgol?"

Siaradon ni am awr neu ddwy. Er y llwyddais i anghofio ei golwg brau a difywyd ar ôl ychydig, nid oedd yn bosib i'w anwybyddu yn gyfan gwbl.
Dechreuon sgwrsio am fy mhлentyndod.

"Ydw, dwi'n cofio dy helyntion di!" chwarddodd Mam, a gwenu'n fodlon.

Ochneidiais yn hapus. "Mae gen i gymaint o atgofion yn y tŷ 'ma. Dwi wirioneddol yn caru'r lle."

"Mae dy Dad wedi bod yn garddio i mi – ond yw'r rhosod yn edrych yn wych?" Nodiais fy mhen. "Hoffet ti fyw yma pan y byddi di'n hyn?"

Edrychais i fyw ei llygaid. "Wel...dwn i'm,." dywedais yn ansicr.

"Dwi 'di bod yn meddwl am f'ewyllys yn ddiweddar. Jesd yn sudro petaet ti â diddordeb mewn byw yma, dyna'i gyd."

"P..pam dy fod yn meddwl am hynny? Oes rhywbeth yn bod?"

"Wel, dwn im. Dwi a dy Dad yn hen rwan, ac mae rhaid i ni feddwl am y pethau yma. Paid â phoeni, Sara."

Gyda'm mhen yn ffrwydro â phryderon a syniadau, cyhoeddodd Dad:

"Mae cinio'n barod!"

Dilynais bawb i'r gegin, ac eistedd wrth y bwrdd. Gwenai Joni yn hapus, a bwytaid Dad a Mam eu cinio yn fodlon. Ond, roeddwn i'n bell o fod yn hapus.

Roedd rhywbeth mawr o'i le.

Wrth i'r haul fachlud, edrychai'r awyr fel petai'n rhyw lun tirwedd artistig, â fflachiau o binc a phiws, pelydrau euraidd yr haul yn goleuo'r dyffryn, a chymylau fel peli o gotwm meddal.

Roedd Dad a Joni yn ymlacio yn y lolfa, ac roedd Mam wedi mynd fynny staer i orffwys ers ychydig. Sefais yn y gegin, yn pendroni.

"Popeth yn iawn, Sara?" Neidiais o'r sioc. "Sori - wnes i godi ofn arnat?"

Sefai Mam y tu ôl i mi.

"Mae'n iawn, Mam."

Troais yn ôl i weld yr awyr. Cerddai yn araf at f'ochr. Anadlais yn ddwfn.

"W'sti, nosweithiau fel 'ma sy'n gwneud i mi ddifaru pob eiliaid y treuliais y tu mewn, yn gweithio, a'n poeni am bethau amhwysig."

"Mam-" Cwmpodd deigr yn ar fy moch.

"Paid â chrio, Sara. Dwi yma."

"Beth sy'n bod? Nid y ffliw ydi hyn," meddwn yn dawel.

Estynodd Mam i boced ei gwn nos. Daliai ryw ddarn o bapur.

"Edrycha arnai Sara." Troais yn amheus i'w gwynebu. Roedd hithau hefyd yn crio. "Doeddwn i ddim eisiau i bethau fod fel hyn. Ddwedais i ddim i atal dy frifo," meddai yn grynedig. "Mi ofynais i ti a Joni ddod yma, gan fy mod eisiau treulio f'amser gyda chi."

"Mam...be?" sibrydais.

"Dwi mor falch o fod wedi cael treulio fy amser a chi i gyd. Dwi eisiau i bopeth fod yn normal, er nad yw e, wrth gwrs. Dwi'n eich caru chi gymaint."

Daliai yn fy llaw, a rhoi'r papur ynddo. Rhoddodd gwtsh mawr i mi. "Mae Dad a Joni eisioes yn gwybod. Paid â phoeni dim. Jesd tyrd i dreulio amser gyda mi."

Gadawodd yr ystafell.

Rhwygais yr amlen ar agor, a darllenais y llythyr.

Ymysg y geiriau cymhleth i gyd, roedd dau air yn sefyll allan.

Jesd anadla Sara, meddyliais.

Gadawais y llythyr ar y cownter, anadlais yn ddwfn, a cherdded i'r lolfa, i eistedd â Mam.